Cyd-gyngor Cymwysterau

TAG, TLM a Chymwysterau Project

Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs

1 Medi 2011 i 31 Awst 2012

(Rhaid anfon y cyfarwyddiadau hyn yn electronig at bob arweinydd pwnc yn y ganolfan)

Cynhyrchwyd ar ran:

AQA ASSESSMENT and QUALIFICATIONS ALLIANCE

edexcel advancing learning, changing lives

OCR RECOGNISING ACHIEVEMENT

City & Guilds

CBAC WJEC

cea Rewarding Learning

©2011

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau wedi ysgrifennu'r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer gosod, goruchwylio, dilysu, marcio a safoni gwaith cwrs yn fewnol ac yn allanol mewn canolfannau arholiadau

Mae'r cyfarwyddiadau hyn i'w defnyddio ym mhob manyleb TAG a TLM. Dylid eu defnyddio hefyd gyda'r Cymwysterau Project gan gynnwys y Project Estynedig.

Mae'r rhain yn gyfarwyddiadau sy'n ychwanegol at unrhyw ganllawiau neu reoliadau y gallai'r cyrff dyfarnu unigol eu cyhoeddi. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng canllawiau neu reoliadau'r corff dyfarnu a'r cyfarwyddiadau hyn, y cyfarwyddiadau corff dyfarnu a phwnc-benodol sy'n cymryd blaenoriaeth.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn weithredol o 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012.

Cyfrifoldeb pob arweinydd pwnc yn y ganolfan yw gwneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â chynnwys y llyfryn hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad

1	**Gosod tasgau**	3
2	**Marcio, diwygio, ail-ddrafftio ac adolygiad interim o'r gwaith**	3-4
3	**Cyflwyno gwaith cwrs ar bapur**	5
4	**Rhan rhieni/gofalwyr**	5
5	**Cydnabod ffynonellau**	6
6	**Camymddwyn mewn gwaith cwrs**	6
7	**Canfod llên-ladrad**	7
8	**Dulliau dilysu**	8
9	**Marcio gwaith cwrs a asesir yn fewnol**	8
10	**Anodi**	9
11	**Gwaith a gynhyrchir ar y cyd**	9
12	**Ansawdd yr laith/Cyfathrebu Ysgrifenedig**	9
13	**Safoni marcio o fewn canolfannau**	10
14	**Cyflwyno marciau cydrannau a asesir yn fewnol**	10
15	**Gwaith cwrs anghyflawn**	11
16	**Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn perthynas â gwaith cwrs anghyflawn**	11
17	**Gwaith cwrs coll**	11
18	**Ail-ddefnyddio marciau gwaith cwrs gan ymgeiswyr**	12
19	**Safoni allanol**	12
20	**Adborth i ganolfannau**	13
21	**Arweiniad i'r canolfannau hynny lle nad yw'r gofynion gwaith cwrs wedi'u cwrdd**	14
22	**Gwaith cwrs a asesir yn allanol**	14
23	**Dychwelyd gwaith i ganolfannau**	14
24	**Trefniadau consortiwm o ganolfannau**	15
25	**Ymholiadau am ganlyniadau**	15
26	**Materion mynediad**	16
Atodiad 1	**Datganiad Dilysu'r CGC – asesiadau gwaith cwrs**	17
Atodiad 2	**Gwybodaeth i Ymgeiswyr y CGC, TAG, TLM, a Chymwysterau Project, Asesiadau Gwaith Cwrs**	18-19

Cyflwyniad

Yn y cyfarwyddiadau hyn, sefydliad y bydd corff dyfarnu'n ei gymeradwyo fel canolfan i'w arholiadau yw canolfan, a bydd prifathro ysgol, pennaeth coleg, neu brif swyddog sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo fel canolfan yn cael ei alw'n bennaeth canolfan. Pennaeth canolfan sy'n atebol i'r cyrff dyfarnu am wneud yn siŵr bod gwaith cwrs yn cael ei gynnal a'i farcio yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn. Os bydd sefyllfa'n codi nad yw'n cael ei thrafod yn y cyfarwyddiadau hyn, dylech ofyn am gyngor gan y corff dyfarnu dan sylw. Lle mae cyfarwyddiadau pwnc-benodol wedi'u hargraffu yn y fanyleb, mae'r rhain yn cymryd blaenoriaeth dros y cyfarwyddiadau yn y ddogfen hon.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn i'w dilyn wrth osod, goruchwylio, dilysu, marcio a safoni gwaith cwrs yn fewnol ac yn allanol ym mhob pwnc.

Term cyffredinol yw gwaith cwrs, ac mae'n cynnwys y gwaith sydd ei angen mewn cymwysterau Project. Dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod Adrannau 1-6, 8, 11, 12, 16-18 a 26 hefyd yn berthnasol i waith cwrs a asesir yn allanol.

Dylech anfon yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â gwaith cwrs yn syth at y corff dyfarnu dan sylw ac nid at y safonwr (onid yw'r corff dyfarnu'n rhoi cyfarwyddyd fel arall i chi).

Cewch eich atgoffa y gall torri'r rheoliadau o ran gosod, goruchwylio, dilysu a marcio gwaith cwrs gael ei ystyried yn gamymddwyn yn ôl y diffiniad yn llyfryn y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau – Polisïau a Gweithdrefnau 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012* sydd ar gael ar wefan y CGC (http://www.jcq.org.uk/exams office/malpractice). Cewch eich cyfeirio at y ddogfen hon am fwy o fanylion.

Am wybodaeth yn ymwneud â chynnal asesiadau dan reolaeth, rhaid i chi gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth*, sydd ar gael ar wefan y CGC http://www.jcq.org.uk/exams office/controlledassessment/. Mae'r llyfryn uchod yn rhoi gwybodaeth ar ddulliau cynnal asesiadau dan reolaeth mewn manylebau TGAU a Sgiliau Gweithredol newydd ac unedau Prif Ddysgu mewn cymwysterau Diploma.

Mae'r dogfennau CGC hyn hefyd ar gael ar ffon gof Hydref 2011 y CGC sy'n rhan o'r dosbarthiad CGC i ganolfannau ym mis Medi, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

1 Gosod tasgau

1.1 Mae cydrannau gwaith cwrs yn asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr nad oes modd eu hasesu'n rhwydd trwy bapurau ysgrifenedig wedi'u hamseru. Bydd sawl ffurf wahanol i waith cwrs felly. Gall tystiolaeth o gyfranogiad y gellir ei atodi â gwaith terfynol yr ymgeisydd gynnwys allbrintiau, copïau o gyflwyniadau, siartiau, ffotograffau, llythyrau, arteffactau, fideos, recordiadau neu drawsgrifiadau o gyfweliadau, CDau neu DVDau. Bydd yr amrywiaeth hon yn cael ei hadlewyrchu mewn unrhyw ofynion pwnc-benodol o ran gwaith cwrs sydd wedi'u cyhoeddi gan y corff dyfarnu.

2.2 Dylai'r ganolfan sicrhau bod yr ymgeiswyr yn glir am y meini prawf asesu y mae disgwyl iddynt eu cwrdd yn eu gwaith cwrs. Bydd manylebau fel arfer yn egluro'r meini prawf yn fanwl ond gallai fod angen rhagor o eglurhad neu ddehongliad ar yr ymgeiswyr cyn y byddant yn deall yn llawn natur y sgiliau y mae disgwyl iddynt eu dangos. **Rhaid** i unrhyw eglurhad neu ddehongliad fod yn gyffredinol yn hytrach na phenodol i waith yr ymgeisydd.

2.3 Yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cychwyn ar gymwysterau Project, rhaid nodi'n glir yr hyn sydd ynghlwm: rhyddid i ddewis testun, dewis hyblyg o allbwn a'r cyfle i ddangos tystiolaeth o amrediad eang o alluoedd. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeiswyr ddewis projectau ar ôl trafod â'r goruchwyliwr a chael ei ddilysu, fel bo'n briodol, gan y ganolfan, gan ddilyn dulliau gweithredu y bydd y corff dyfarnu'n eu pennu.

2 Marcio, diwygio, ail-ddrafftio ac adolygiad interim y gwaith

2.1 Wrth farcio'r gwaith cwrs, **ni ddylai** athrawon/aseswyr roi credyd mewn perthynas ag unrhyw gymorth ychwanegol fydd wedi'i roi i'r ymgeiswyr sydd y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifiwyd yn y fanyleb a **rhaid** rhoi manylion unrhyw gymorth ychwanegol ar y ffurflen(ni) cofnod priodol. Byddai enghreifftiau'n cynnwys:

- ar ôl adolygu gwaith cwrs yr ymgeisydd rhoi cyngor manwl ac awgrymiadau ar sut i wella'r gwaith er mwyn cwrdd â'r meini prawf asesu (naill ai i ymgeiswyr unigol neu i grwpiau);
- rhoi arwyddion manwl o wallau neu hepgoriadau nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfle i'r ymgeisydd feddwl drosto'i hun;
- rhoi cyngor ar welliannau penodol sydd eu hangen i gwrdd â'r meini prawf;
- darparu fframiau ysgrifennu penodol i'r dasg gwaith cwrs (e.e. amlinelliadau, penawdau paragraffau neu benawdau is-adrannau);
- ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys y gwaith cwrs.

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir yn y fanyleb, dylai athrawon sicrhau bod darpariaeth i gofnodi'r cymorth hwn a'i ystyried wrth farcio, **gan fod rhai cydrannau gwaith cwrs lle na chaniateir cymorth ychwanegol o gwbl.**

2.2 **Mae rhwydd hynt i ymgeiswyr adolygu ac ail-ddrafftio darn o waith cwrs heb ymgynghori â'r athro cyn cyflwyno'r darn terfynol.** Dylid cynghori ymgeiswyr i dreulio cyfnod priodol o amser ar y gwaith sy'n gymesur â'r marciau sydd ar gael.

2.3 Lle mae drafftio'n rhan gynhenid o'r sgiliau sy'n cael eu profi, bydd cyfarwyddyd pwnc-benodol ac enghreifftiau yn dangos ei swyddogaeth o ran y math o ysgrifennu sy'n cael ei wneud ac unrhyw asesiad interim a gaiff ei ganiatáu yn yr amgylchiadau hyn. Gall yr arweiniad hwn gynnwys sut mae tystiolaeth o ail-ddrafftio yn cael ei ddangos at safoni mewnol dilynol neu i bwrpasau safoni allanol.

2.4 Yn absenoldeb arweiniad pwnc-benodol, gall athrawon adolygu gwaith cwrs cyn iddo gael ei gyflwyno i'w asesu'n derfynol. Ar yr amod bod unrhyw gyngor yn parhau i fod ar lefel gyffredinol, gan ganiatáu i'r ymgeisydd gymryd y cam cyntaf o ran gwneud newidiadau, nid oes angen cofnodi'r cyngor hwnnw na thynnu marciau. Yn gyffredinol, byddai disgwyl i un adolygiad fod yn ddigonol i alluogi i'r disgyblion ddeall gofynion y meini prawf asesu. Gellir rhoi cyngor naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Mewn rhai pynciau megis Celf, efallai y bydd angen adolygu'r gwaith fwy nag unwaith.

2.5 Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng unrhyw adolygiad interim o'r gwaith cwrs ac asesiad terfynol y gyfres arholiadau arfaethedig. Unwaith y caiff gwaith ei gyflwyno i'w asesu'n derfynol, **ni ellir** ei ddiwygio. Ni chaniateir 'copïau teg' o waith wedi'i farcio o gwbl. **Byddai ychwanegu unrhyw ddeunydd at waith cwrs neu ei ddileu ohono ar ôl iddo gael ei gyflwyno gan ymgeisydd i'w asesu'n derfynol yn golygu camymddwyn.**

2.6 Pan gyflwynir gwaith cwrs ar ffurf ddigidol gall fod achosion lle nad oes marciau am lunio'r e-waith cwrs, ac os felly gall yr athro yn hytrach na'r ymgeisydd wneud y gwaith llunio.

2.7 Os bydd angen cymorth ychwanegol ar ymgeisydd er mwyn dangos agweddau ar yr asesiad, **rhaid** i'r athro ddyfarnu marc sy'n cynrychioli cyflawniad digymorth yr ymgeisydd. **Rhaid** llofnodi'r datganiad dilysu a rhoi'r wybodaeth ar *Daflen Gofnod yr Ymgeisydd.*

2.8 Os yw ymgeiswyr yn dilyn cymwysterau Project, bydd angen i'r goruchwyliwr drafod â'r ymgeisydd yr amrediad o dystiolaeth sy'n dderbyniol i'w ddefnyddio. Gall y goruchwyliwr roi adborth ar gynnydd y Project, a dylid cydnabod hynny ar y ffurflen gofnodi briodol.

2.9 Rhaid i athrawon gadw gwaith cwrs byw yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser pan fydd yn eu meddiant. Nid yw'n dderbyniol i staff addysgu rannu gwaith cwrs 'byw' ag ymgeiswyr eraill.

3 Cyflwyno gwaith cwrs ar bapur

3.1 **Rhaid** i'r holl waith cwrs a gyflwynir i'w asesu fod yn waith yr ymgeisydd ei hun. Gall deunydd ysgrifenedig fod wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio inc du neu wedi'i gynhyrchu ar brosesydd geiriau, lle'n bosibl. (Gellir defnyddio cyfrifiaduron onid yw manyleb y corff dyfarnu'n nodi'n wahanol.)

3.2 Mae llungopi'n dderbyniol pan fydd y gwaith cwrs yn cael ei gyflwyno ar gyfer mwy nag un pwnc, onid yw'r fanyleb yn nodi fel arall. Yn yr achos hwn, bydd angen amgáu nodyn i'r safonwr yn egluro pam y cyflwynwyd llungopi.

3.3 Lle y bo'n briodol, gall y gwaith a gyflwynir hefyd gynnwys allbrintiau/copïau o gyflwyniadau, siartiau, arteffactau, ffotograffau, llythyrau, fideos, recordiadau neu drawsgrifiadau o gyfweliadau, yn ogystal â datganiadau tyst gan athrawon sy'n goruchwylio i gofnodi'r hyn a ddangoswyd gan yr ymgeisydd. Os bydd fideos neu ffotograffau/delweddau o'r ymgeiswyr yn cael eu cynnwys fel tystiolaeth o gyfranogiad neu gyfraniad unigol, **rhaid** i benaethiaid y pwnc gael cydsyniad hysbys gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

3.4 Rhaid i waith cwrs gynnwys teitl a, lle y bo hynny'n berthnasol, tabl o'r cynnwys a llyfryddiaeth. Bydd marciau'n cael eu rhoi am ddeunydd a gynhwysir fel atodiadau (megis tablau ystadegau, diagramau, graffiau, darluniadau, ffotograffau, mapiau ayb) ond os yw'n berthnasol i'r gwaith a bod cyfeiriad ato yn y testun.

3.5 Fel arfer ni ddylid cynnwys deunyddiau enghreifftiol gwerthfawr gyda'r gwaith sy'n cael ei anfon i'w safoni ynteu ei farcio'n allanol, ond dylid cysylltu nodyn â'r gwaith cwrs yn cadarnhau bod y deunydd yn rhan o'r cyflwyniad gwreiddiol. Gellir cynnwys ffotograffau o'r deunydd os yw'n briodol gwneud hynny. Os anfonwyd deunyddiau enghreifftiol gwerthfawr neu fregus i'w safoni neu i'w marcio'n allanol, mae'r cyrff dyfarnu'n argymell bod canolfannau'n yswirio deunydd o'r fath yn erbyn difrod neu golled o'r adeg y bydd yn cael ei anfon tan y bydd yn cael ei ddychwelyd i'r ganolfan. **Nid yw'r cyrff dyfarnu'n derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n digwydd i waith cwrs yn ystod y broses safoni nac wrth ei ddanfon, ei gludo na'i storio, nac am broblemau sy'n digwydd wrth lunio, cyflwyno a safoni gwaith cwrs ar ffurf electronig.**
DS Dylid cynghori ymgeiswyr i beidio â chynnwys eitemau o werth gwirioneddol neu sentimental e.e. ffotograffau, tystysgrifau.

3.6 I bwrpasau safoni neu farcio allanol, dylid cyflwyno gwaith ysgrifenedig mewn cloriau neu blygellau plaen, **ynghyd â'r** taflenni clawr y bydd y corff dyfarnu'n eu darparu. Rhaid nodi'r canlynol yn glir ar y clawr: enw a rhif yr ymgeisydd, rhif y ganolfan, teitl neu god y fanyleb a theitl neu god y gydran/uned. Ni ddylid cynnwys cloriau neu blygellau swmpus. **Os yw'r gwaith cwrs wedi'i wneud ar brosesydd geiriau, rhaid i'r ymgeisydd wneud yn siŵr fod ei h/enw'n ymddangos ar bob tudalen fel pennyn neu droedyn.**

3.7 O ran Cymwysterau Project, dylid cysylltu'r adroddiad ysgrifenedig a'r holl dystiolaeth y bydd y corff dyfarnu'n ei bennu, yn dynn â ffurflen cofnod yr ymgeisydd fel y gall y safonwr ddarllen y gwaith a'r marciau cysylltiedig yn rhwydd.

4 Rhan y rhieni/gofalwyr

4.1 Dylai rhieni/gofalwyr annog eu plant i dreulio amser ar eu gwaith cwrs ac i feddwl amdano cyn gynted â phosibl. Dylent drafod y broses o gynllunio ac amseru'r gwaith gyda'u plant.

4.2 Gall rhieni/gofalwyr sicrhau bod adnoddau ar gael i'w plant a thrafod y gwaith cwrs gyda hwy ond ni ddylent roi cyngor uniongyrchol ar yr hyn a ddylid neu na ddylid ei gynnwys.

4.3 Dylid annog plentyn sydd angen cymorth mwy penodol i siarad â'i h/athro.

5 Cydnabod ffynonellau

5.1 Mewn llawer o bynciau bydd angen i ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig (gan gynnwys y rhyngrwyd) wrth gyflawni eu gwaith cwrs. Fodd bynnag, ni ddylai ymgeiswyr gopïo deunydd cyhoeddedig a'i hawlio fel eu gwaith eu hunain.

5.2 Os bydd ymgeiswyr yn defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, rhaid iddynt roi dyfynodau o gwmpas y darn a nodi o ble y daeth. **Rhaid** i ymgeiswyr roi cyfeiriadau manwl hyd yn oed os byddant yn arall-eirio'r deunydd gwreiddiol. Dylai cyfeiriad o lyfr neu gyfnodolyn cyhoeddedig ddangos enw'r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen. Er enghraifft: (Morrison, 2000, tud 29). Os daw deunydd o'r rhyngrwyd, rhaid i'r cyfeiriad ddangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo. Gellir copïo hwn o'r llinell cyfeiriad. Er enghraifft:

http://www.bbc.co.uk/schools/16/sosteacher/history/40766.shtml.

Rhaid annog ymgeiswyr, fel ymarfer da, i nodi union ddyddiad llwytho'r deunydd i lawr.

5.3 Rhaid i ymgeiswyr gynnwys llyfryddiaeth hefyd sy'n rhestru manylion llawn y cyhoeddiadau a ddefnyddiwyd i ymchwilio eu gwaith cwrs, hyd yn oed os na chyfeirir yn uniongyrchol at y rhain, er enghraifft: Morrison, A (2000) 'Mary Queen of Scots', London: Weston Press.

6 Camymddwyn mewn gwaith cwrs

6.1 Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith nad yw'n waith eu hunain;
- rhoi benthyg gwaith i ymgeiswyr eraill na chaniatáu copïo eu gwaith;
- gadael i ymgeiswyr eraill weld, na defnyddio, eu deunydd ffynhonnell eu hunain a ganfuwyd yn annibynnol na chynorthwyo eraill wrth gynhyrchu gwaith cwrs; (nid yw hyn yn golygu nad yw ymgeiswyr yn cael rhoi benthyg eu llyfrau i'w gilydd, ond ni ddylai ymgeiswyr lên-ladrata ymchwil ymgeiswyr eraill)
- cynnwys gwaith sydd wedi'i gopïo'n syth o lyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth na phriodoliad;
- cyflwyno gwaith sydd wedi'i eir-brosesu gan drydydd person heb gydnabyddiaeth.

Mae gweithredu fel hyn yn gamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

6.2 **Nid oes angen cyflwyno adroddiad am afreoleidd-dra mewn gwaith cwrs sy'n cael ei ganfod cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu i'r corff dyfarnu,** ond yn hytrach dylid ymdrin â'r mater gan ddilyn dulliau gweithredu mewnol y ganolfan. **Rhaid** cofnodi manylion unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun ar y daflen glawr gwaith cwrs neu mewn man priodol arall.

6.3 **Os yw canolfan yn canfod afreolaidd-dra mewn gwaith cwrs ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu,** rhaid i bennaeth y ganolfan gyflwyno manylion llawn yr achos i'r corff dyfarnu perthnasol ar y cyfle cyntaf. Mae arweiniad ar hyn yn cael ei roi yn llyfryn y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau* ynghyd â'r ffurflen JCQ/M1. Mae copïau o'r llyfryn a'r ffurflen i'w cael ar wefan y CGC (http://www.jcq.org.uk/exams office/malpractice).

6.4 Yn ôl y *Cod Ymarfer* y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y canolfannau drefn apelio fewnol, yn ymwneud â phenderfyniadau asesiad mewnol, y mae'r ymgeiswyr yn ymwybodol ohonynt ac sydd ar gael iddynt. Rhaid i'r drefn hon ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod gwaith cwrs ymgeisydd ar sail camymddwyn. Caiff cyngor pellach ei roi yn nogfen y CGC *Trefniadau ar gyfer apeliadau mewnol am benderfyniadau asesu ac ymholiadau am ganlyniadau.* Mae'r ddogfen hon i'w chael ar wefan y CGC (http://www.jcq.org.uk/exams office/other/).

6.5 Yn achos adroddiadau o gamymddwyn honedig mewn gwaith cwrs sy'n cael eu derbyn gan arholwyr neu safonwyr, bydd y corff dyfarnu'n gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad llawn i'r camymddwyn honedig ac i adrodd ei g/chasgliadau'n ôl i'r corff dyfarnu. Mae arweiniad ar hyn yn cael ei roi yn llyfryn y CGC y cyfeirir ato ym **Mharagraff 6.3, tudalen 8**.

6.6 Cedwir yr hawl gan y cyrff dyfarnu i gyflwyno gwaith ymgeiswyr i ddarparwyr gwasanaeth TG trydydd person er mwyn canfod camymddwyn posibl a honedig. Os bydd hyn yn digwydd, bydd hunaniaeth yr ymgeisydd yn cael ei warchod.

7 Canfod llên-ladrad

7.1 Mae nifer o gliwiau i'r posibilrwydd o lên-ladrad, a dylai athrawon wneud yn siŵr eu bod yn cadw'r rhain mewn cof. Mae arweiniad pellach ar ganfod llên-ladrad i'w gael yn nogfen y CGC *Llên-ladrad mewn Arholiadau: Arweiniad ar gyfer Athrawon/Aseswyr.* Mae'r ddogfen hon i'w chael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk/).

7.2 Dylid edrych hefyd ar y canllawiau canlynol, sydd wedi'u cyhoeddi gan Ofqual:

http://www.ofqual.gov.uk/public-download/category/61-resources?download=619%3Aplagiarism-guide-for-students

http://www.ofqual.gov.uk/public-download/category/61-resources?download=618%3Aplagiarism-guide-for-parents

http://www.ofqual.gov.uk/for-teaching-and-training-centres/124-for-teaching-and-training-main-box-2-no-image/269-plagiarism-guide-for-teachers

8 Dulliau dilysu

8.1 Yn ôl gofynion y *Cod Ymarfer* mae'n rhaid i **bob ymgeisydd** lofnodi mai eu gwaith hwy yn unig yw'r gwaith a gyflwynir. Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi datganiad dilysu (**gweler Atodiad 1, tudalen 15**) cyn rhoi gwaith cwrs i'r athro / aseswr i'w asesu'n derfynol yn nodi mai ei g/waith ei hun ydyw. Gwneir hyn er mwyn iddynt gadarnhau mai eu gwaith hwy ydyw a bod unrhyw gymorth a roddwyd a/neu ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau eu bod yn gwneud hyn.** Dylai canolfannau gofnodi marciau o sero os na all ymgeiswyr gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu.

8.2 Mae'n ofynnol hefyd yn ôl y *Cod Ymarfer* bod athrawon / aseswyr yn cadarnhau wrth y corff dyfarnu bod yr holl waith a gwblhawyd i'w asesu wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol a'u bod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd unigol yn unig yw'r gwaith. Os na allant wneud hynny, ni ddylai'r gwaith gael ei dderbyn i'w asesu. Rhaid i bob athro/aseswr sydd wedi asesu gwaith unrhyw ymgeisydd a gofrestrwyd am bob cydran lofnodi'r datganiad dilysu. Gall methiant i lofnodi'r datganiad dilysu ohirio prosesu canlyniadau'r ymgeisydd. **Os nad oes tystiolaeth, yn ystod y broses safoni allanol, bod y gwaith wedi'i ddilysu'n gywir, yna bydd y corff dyfarnu'n gosod y marc(iau) a ddyfarnwyd gan y ganolfan i sero.**

8.3 Dylai'r athro fod yn ddigon ymwybodol o safon yr ymgeisydd a lefel ei waith i werthfawrogi a yw'r gwaith cwrs sy'n cael ei gyflwyno y tu hwnt i allu'r ymgeisydd.

8.4 Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau mae'r athrawon yn gyfarwydd â gwaith ymgeiswyr trwy waith dosbarth a gwaith cartref. Lle nad yw hyn yn wir, dylai athrawon ofyn bod gwaith cwrs yn cael ei gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

8.5 Ym mhob achos, mae angen rhywfaint o oruchwyliaeth uniongyrchol i sicrhau bod modd dilysu'n hyderus mai gwaith yr ymgeisydd yw'r gwaith cwrs a gyflwynir.

8.6 Os oes gan athrawon/aseswyr amheuon ynglŷn â llofnodi datganiadau dilysu, dylid dilyn y cyfarwyddyd canlynol:

- os credir bod ymgeisydd wedi derbyn cymorth ychwanegol a bod hyn yn dderbyniol o fewn canllawiau'r fanyleb berthnasol, dylai'r athro/aseswr roi marc sy'n cynrychioli cyflawniad digymorth yr ymgeisydd. Dylid llofnodi'r datganiad dilysu a rhoi'r wybodaeth ar y ffurflen berthnasol.

- os nad yw'n bosibl i'r athro/aseswr lofnodi datganiad dilysu ymgeisydd penodol, yna ni ellir derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu. Dylid cofnodi marc o sero ar y daflen farciau neu ei amgodio ar y ffeil EDI.

- os oes amheuaeth bod camymddwyn, dylid ymgynghori â'r swyddog arholiadau ynglŷn â'r drefn i'w dilyn. (**gweler paragraffau 6.2 a 6.3, tudalen 6**).

9 Marcio gwaith cwrs a asesir yn fewnol

9.1 Wrth farcio gwaith cwrs, dylai athrawon dalu sylw agos at ofynion y fanyleb. Dylai athrawon nodi mai eu cyfrifoldeb hwy yw dyfarnu marciau am waith cwrs gan ddilyn y meini prawf marcio a nodir ym manyleb y corff dyfarnu a dogfennau cysylltiol sy'n benodol i'r pwnc. Rhaid i athrawon ddangos yn glir sut y dyfarnwyd y marciau mewn perthynas â'r meini prawf marcio hyn. Rhaid i farciau'r ganolfan adlewyrchu cyflawniad cymharol yr ymgeiswyr i gyd.

9.2 Pan fydd athro/athrawes yn dysgu ei b/phlentyn ei hun, rhaid i'r ganolfan ddatgan bod gwrthdaro buddiannau ac anfon y gwaith wedi'i farcio at y safonwr pa un ai yw'n rhan o'r sampl ai peidio

10 Anodi

10.1 Rhaid dilyn unrhyw arweiniad a roddir ym manyleb y corff dyfarnu ynglŷn â darparu tystiolaeth i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd.

10.2 Yn ddibynnol ar unrhyw arweiniad pellach fydd wedi'i gynnwys yn y manylebau, dylid dilyn un o'r dulliau canlynol:

- sylwadau crynodol naill ai ar y gwaith (ar y diwedd fel arfer) neu ar daflen glawr);
- tynnu sylw at ddarnau allweddol o dystiolaeth trwy'r gwaith i gyd trwy anodi naill ai ar yr ymyl neu yn y testun;
- cyfuniad o'r uchod.

10.3 Dylai unrhyw arwyddion sy'n dangos bod marciau wedi'u dyfarnu fod yn:

- glir a diamwys;
- priodol i natur a ffurf y gwaith cwrs;
- hwyluso cymedroli'r marcio o fewn y ganolfan;
- galluogi'r safonwr i wirio bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso i'r marcio.

10.4 Lle y bo'n briodol i'r math o waith, dylai'r dystiolaeth i gefnogi'r marciau a ddyfarnwyd:

- nodi ymhle y cafodd y meini prawf asesu eu cwrdd, e.e. trwy ysgrifennu ymadroddion allweddol o'r meini prawf (megis 'ymwybyddiaeth o werthoedd', 'yn dethol gwybodaeth', 'yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau') ar fan priodol yn y gwaith;
- nodi unrhyw gynllunio a phrosesu nad yw wedi'i wneud yn unigol, a darparu manylion unrhyw gymorth neu anogaeth a roddwyd i'r ymgeisydd.

10.5 Lle nad yw'r safonwr yn gallu canfod tystiolaeth i gyfiawnhau'r marc a ddyfarnwyd i ymgeisydd, gellir dychwelyd y gwaith i'r ganolfan am eglurhad pellach neu efallai y bydd y marc yn cael ei newid.

11 Gwaith a gynhyrchir ar y cyd

11.1 Mae'n dderbyniol i ddau neu fwy o ymgeiswyr weithio gyda'i gilydd, o fewn unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u pennu gan y fanyleb, cyn belled â bod y ganolfan yn rhoi caniatâd iddynt wneud hyn a chyfraniad pob ymgeisydd yn cael ei nodi'n glir. Er enghraifft, os yw ymgeiswyr wedi gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad yn ymgymryd â gwaith maes, rhaid i bob ymgeisydd ysgrifennu ei gyfrif ei hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gan yr ymgeisydd yr un peth, rhaid i'r disgrifiad o sut cafwyd y data a'r casgliadau a dynnwyd ohono fod yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

12 Ansawdd yr Iaith/Cyfathrebu Ysgrifenedig

12.1 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio cyfathrebu clir a chyflwyniad clir yn eu gwaith cwrs; mae manylebau'n nodi a fydd ansawdd yr iaith yn cael ei asesu.

13 Cymedroli marcio o fewn canolfannau

13.1 Dylai canolfannau ddefnyddio deunyddiau cyfeirio ac archif (megis deunydd enghreifftiol y bydd y corff dyfarnu'n ei ddarparu neu, lle y bo hynny ar gael, waith yn y ganolfan o'r flwyddyn flaenorol) er mwyn helpu i osod safon y marcio o fewn y ganolfan.

13.2 Cyn marcio, mae'n ddefnyddiol treialu ymarferiad marcio. Bydd athrawon yn marcio'r un sampl cymharol fach o waith i ganiatáu cymharu safonau marcio. Gall yr ymarferiad ddigwydd ar adegau priodol yn ystod y cwrs ac mae iddo dair effaith fuddiol: mae'n helpu i gael gwell cymaroldeb yn y safonau marcio; gall dynnu sylw'n gynnar yn y broses at unrhyw athrawon nad yw eu safonau'n cydfynd â'u cydweithwyr; ac mae'n lliniaru rhywfaint ar lwyth marcio trwm ar ddiwedd y cwrs.

13.3 Pan fydd gwaith cydran wedi'i farcio gan fwy nag un athro mewn canolfan, dylid fel arfer safoni'r marcio'n fewnol gan ddilyn un o'r canlynol.

Naill ai caiff sampl o waith sydd wedi'i farcio gan bob athro ei ail-farcio gan yr athro sydd â gofal am y safoni mewnol;

Neu bydd pob athro sy'n gyfrifol am farcio cydran yn cyfnewid rhywfaint o waith wedi'i farcio (mewn cyfarfod dan arweiniad yr athro â gofal am y safoni mewnol fyddai orau) ac yn cymharu eu safonau marcio.

Yn yr achosion hynny pan fydd safonau'n anghyson, dylai'r athro (athrawon) perthnasol newid eu marciau neu ail-ystyried marciau pob ymgeisydd roeddent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r athro sydd â gofal am safoni mewnol wirio'r marciau newydd.

13.4 Ar ôl cwblhau'r marcio a'r safoni mewnol, rhaid i'r ganolfan gadw'r gwaith cwrs ac ni ddylid ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr tan ar ôl dyddiad cau'r ymholiadau am ganlyniadau i'r gyfres dan sylw.

13.5 Dylai canolfannau gadw tystiolaeth bod safoni mewnol wedi digwydd.

14 Cyflwyno marciau am gydrannau a asesir yn fewnol

14.1 Bydd cyrff dyfarnu'n cyhoeddi dyddiadau cau cyflwyno'r marciau.

14.2 Bydd y cyrff dyfarnu'n cyflenwi ffurflenni i gofnodi'r marciau gwaith cwrs terfynol arnynt. Rhaid llenwi'r ffurflenni ac unrhyw ddogfennaeth arall sy'n cael ei darparu gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir a'u dychwelyd i'r cyrff dyfarnu erbyn y dyddiad a bennir. Neu, gall canolfannau gyflwyno eu marciau gwaith cwrs yn electronig.

14.3 Os yw canolfan wedi'i heffeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth gall fod yn bosibl, **mewn amgylchiadau eithriadol**, caniatáu estyniad byr. Yn ôl ewyllys y corff dyfarnu y gwneir hyn a **rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i ofyn am drefniant o'r fath. Mae'n bwysig bod canolfannau'n ymwybodol y bydd y drefn o gyhoeddi'r canlyniadau arholiadau ar amser yn cael ei beryglu os na chedwir at y dyddiadau cyflwyno marciau a samplau.

14.4 Pan fydd canolfannau'n cyflwyno eu marciau gwaith cwrs yn electronig, efallai y bydd y cyrff dyfarnu hefyd am gael cyflwyno copi o'r marciau i'r safonwr, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth arall.

14.5 Gall y ganolfan hysbysu'r ymgeiswyr o'r marciau a gyflwynwyd i'r corff dyfarnu, ond wrth wneud hynny rhaid iddynt ddweud yn glir y gallai'r marciau hyn newid wrth i'r broses safoni fynd rhagddi.

14.6 Ni fydd cyrff dyfarnu'n derbyn gwaith cwrs gan ganolfannau sy'n cyrraedd yn rhy hwyr i'w safoni.

15 Gwaith cwrs anghyflawn

15.1 Mewn achosion lle mae elfen gwaith cwrs y fanyleb yn nodi'n benodol bod ymgeiswyr i fod i gynhyrchu sawl darn gwahanol o waith (e.e. tri aseiniad neu ddeg traethawd), sy'n cael eu hasesu ar wahân, dylid rhoi marciau i ymgeisydd sydd wedi methu â chwblhau holl rannau'r gwaith am y dasg a gyflawnwyd oni nodir yn wahanol yn y fanyleb. Mewn rhai pynciau, gall y tasgau fod yn gyd-ddibynnol a dylai'r athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau yn y fanyleb wrth asesu gwaith anghyflawn.

15.2 Rhaid cofnodi ar y daflen farciau neu wrth brosesu marciau'n electronig bod ymgeiswyr sy'n methu â chyflwyno unrhyw waith cwrs yn absennol. Ni fydd methiant i gyflwyno gwaith cwrs yn gwneud ymgeisydd yn anghymwys am ddyfarniad gradd bwnc.

15.3 Dylid rhoi marc o **'0'** (sero) mewn achosion lle mae ymgeisydd wedi cyflwyno gwaith sy'n cael ei ystyried yn ddi-werth neu lle nad oes modd cadarnhau dilysrwydd y gwaith.

16 Gwneud cais am ystyriaeth arbennig mewn perthynas â gwaith cwrs anghyflawn

16.1 Os yw ymgeisydd wedi dioddef salwch sydyn neu rhyw anhap arall yn ystod cyfnod cynhyrchu'r gwaith cwrs, mewn rhai pynciau gall fod yn bosibl derbyn llai o waith cwrs heb gosb, **cyn belled ag yr ymdriniwyd â'r holl amcanion asesu o leiaf unwaith**. Ni fydd yn bosibl gwneud hyn os yw'r fanyleb ond yn gofyn am un darn. Lle bo angen sawl darn, bydd y gostyngiad ond yn cael ei dderbyn os yw'r darnau hynny'n profi'r un meini prawf. Ni fydd yn bosibl rhoi'r ystyriaeth hon ym mhob achos, er enghraifft os nad oes unrhyw waith cwrs wedi'i gyflwyno neu os nad yw'r meini prawf asesu wedi'u bodloni.

16.2 Ni ddylai'r ganolfan wneud unrhyw newid i'r marciau. Dylid cyflwyno ffurflen ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu ynghlwm wrth grynodeb o'r marciau ar draws yr amcanion asesu. **Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi'u paratoi'n llawn am y cwrs ond heb fod wedi gorffen ysgrifennu'r gwaith i fyny.** Ni fydd cyrff dyfarnu fel arfer yn cytuno o flaen llaw i lai o waith cwrs gael ei gyflwyno.

16.3 Ni fydd ymgeiswyr yn gymwys am ystyriaeth arbennig os yw paratoi am gydrannau gwaith cwrs neu berfformiad ynddynt wedi'i effeithio oherwydd nad ydynt wedi gallu gwneud y cwrs yn llawn gan eu bod wedi ymuno â'r cwrs ran o'r ffordd trwyddo. Bydd rhaid i ymgeiswyr sy'n newid canolfan arholiadau ran o'r ffordd drwy gwrs naill ai wneud i fyny'r gwaith a gollwyd neu dderbyn bod bwlch yn eu gwaith cwrs. Gallai hyn gael effaith ar y radd a gyhoeddir.

16.4 Am wybodaeth bellach ar ystyriaeth arbennig dylid cyfeirio at gyhoeddiad y CGC, *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012.* Mae'r llyfryn hwn ar gael hefyd ar wefan y CGC (http://www.jcq.org.uk/exams office/access arrangements).

17 Gwaith Cwrs Coll

17.1 Os yw gwaith ymgeisydd wedi'i **golli yn y ganolfan arholiadau**, ac, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd ei ganfod, neu os yw wedi'i ddinistrio'n ddamweiniol, dylid hysbysu'r corff dyfarnu o'r amgylchiadau ar unwaith ar ffurflen y CGC *JCQ/LCW.* Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams_office/coursework
Mae arweiniad yn cael ei roi ar hyn yn **adran 14.6** cyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012:* (http://www.jcq.org.uk/exams office/access arrangements)

17.2 Bydd y corff dyfarnu'n ystyried a yw'n briodol derbyn marc nad oes tystiolaeth o gyrhaeddiad ar gael ar ei gyfer. Gallai hyn ddigwydd yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Rhaid** i'r ganolfan allu dilysu bod y gwaith wedi'i wneud a'i fod wedi'i fonitro wrth fynd rhagddo.
- **Nid** yw'r gwaith yn ganlyniad esgeulustod ar ran yr ymgeisydd.
- **Os mai ond rhan o'r gwaith a gollwyd a bod rhan o'r gwaith ar gael**, rhaid ceisio arweiniad pellach gan y corff dyfarnu perthnasol.
- **Os marciwyd y gwaith cyn iddo gael ei golli neu'i ddifrodi**, dylid cyflwyno'r marciau yn y ffordd arferol. **Rhaid** cyflwyno **ffurflen 15 – JCQ/LCW** i'r safonwr ac i'r corff dyfarnu erbyn dyddiad cau cyflwyno marciau a aseswyd yn fewnol neu erbyn dyddiad anfon y gwaith i'w safoni. **Ni dderbynnir unrhyw farciau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.**
- **Os na farciwyd y gwaith cyn iddo gael ei golli neu'i ddifrodi,** gellir cyflwyno amcangyfrif o'r marc ar **Ffurflen 15 – JCQ/LCW**, yn seiliedig ar wybodaeth yr athro/athrawes o'r gwaith hyd at yr amser y cafodd ei golli. Wrth amcangyfrif **ni ddylid** tybio'r hyn y gallai'r ymgeisydd fod wedi'i gyflawni pe byddai'r gwaith yn orffenedig. **Ni ddylid** cyflwyno amcangyfrifon ar daflenni marciau, dylid ond gwneud hynny ar Ffurflen 15 – JCQ/LCW. **Ni ddylid cyflwyno unrhyw farciau wedi'u hamcangyfrif ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.**

18 Ail-ddefnyddio marciau gwaith cwrs gan ymgeiswyr

18.1 Mewn manylebau unedol, mae canlyniad uned gwaith cwrs, fel canlyniad unrhyw uned arall, ar gael i'w ail-ddefnyddio ar ôl ardystio.

18.2 Gall ymgeiswyr sy'n ailsefyll gyflwyno gwaith cwrs sy'n newydd, wedi'i ddiwygio neu wedi'i wella.

19 Safoni allanol

19.1 Pwrpas safoni yw dod â marcio cydrannau a asesir yn fewnol yn yr holl ganolfannau cyfranogol at safon a gytunwyd. Mae'r cyrff dyfarnu'n gofyn i bob canolfan ildio i safoni fel y disgrifir isod (ac eithrio yn yr achosion hynny pan fydd canolfannau wedi'u hachredu am fanyleb, e.e. manylebau TAG Cymhwysol).

19.2 Safoni trwy'r post yw'r drefn arferol, pan fydd canolfan yn anfon sampl o waith at y safonwr. Yn achos rhai cydrannau, fodd bynnag, gall y safonwr ymweld â'r ganolfan i farcio'r gwaith.

19.3 Efallai y bydd y drefn yn wahanol os yw'r gwaith yn effemeral (h.y. dim cynnyrch terfynol parhaol).

19.4 Rhaid i bob canolfan gyflwyno'r canlynol i'r corff dyfarnu erbyn y dyddiad a bennir:

- manylion y marciau a ddyfarnwyd;
- dilysiad o'r gwaith a gyflwynwyd i'w asesu;
- cadarnhad bod safoni mewnol wedi'i gynnal yn ôl y gofyn;
- unrhyw wybodaeth arall yn ôl gofynion y fanyleb.

19.5 Bydd y corff dyfarnu (neu'r safonwr ar ran y corff dyfarnu) fel arfer yn enwi neu'n rhoi rhifau'r ymgeiswyr y mae angen eu gwaith i'w safoni. Dylai'r sampl gynnwys gwaith gan yr ystod gallu cyfan yn y ganolfan.

19.6 Yn achos safoni trwy ymweliad, bydd ymweliad yn cael ei drefnu ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r ganolfan a'r safonwr.

19.7 Yn achos safoni trwy'r post a thrwy ymweliad, bydd y safonwr yn asesu gwaith y sampl gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a gyhoeddwyd yn y fanyleb.

19.8 Caiff marciau'r safonwr eu cymharu â marciau'r ganolfan am waith y sampl. Os bydd unrhyw wahaniaethau rhwng marciau'r safonwr a marciau'r ganolfan sy'n fwy na'r goddefiant penodol, bydd marciau'r ganolfan fel arfer yn cael eu newid.

19.9 Os bydd angen tystiolaeth bellach o farcio'r ganolfan, gall y safonwr ofyn am rywfaint neu'r cyfan o'r gwaith sy'n weddill. **Rhaid** i'r gwaith fod wedi'i gadw'n ddiogel a dylai fod ar gael.

19.10 Os bydd cryn anghytundeb rhwng trefn restrol y ganolfan a threfn restrol y safonwr, gellir gweithredu marciau'r safonwr i'r holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am y gydran gan y ganolfan.

19.11 Mewn rhai amgylchiadau gall y corff dyfarnu ofyn i'r ganolfan ail-ystyried ei marciau (er enghraifft, os na chafodd safoni mewnol ei gynnal).

20 Adborth i Ganolfannau

20.1 Bydd y marciau terfynol, wedi'u safoni (neu mewn rhai achosion y manylion am newidiadau i'r marciau) yn cael eu darparu'n electronig i'r canolfannau gyda'r canlyniadau. Bydd ffurflenni adborth y safonwr hefyd yn cael eu darparu ar gyfer y canolfannau a bydd y rhain yn rhoi cyngor ar y canlynol:

- pa mor briodol oedd y tasgau (lle cawsant eu gosod gan y ganolfan) a'r ymdriniaeth â'r amcanion asesu.
- cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon a gytunwyd am y gydran.
- effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan.

20.2 Bydd y cyngor sy'n cael ei roi ar y ffurflenni adborth yn adeiladol, gwrthrychol ac wedi'i gefnogi gan ffaith neu farn ac yn ddigon manwl i egluro unrhyw wahaniaethau rhwng asesiadau'r ganolfan a'r safon a gytunwyd am y gydran. Dylai alluogi canolfannau i weithredu i adfer hyn lle bo angen cyn cyflwyno'r gwaith a asesir yn fewnol y tro nesaf.

20.3 Gellir gwneud sylwadau ar gywirdeb asesiadau canolfan hyd yn oed os na wneir unrhyw newid. Er enghraifft, os yw'r gwahaniaeth rhwng marciau'r safonwr a marciau'r ganolfan ond prin o fewn y goddefiant a bennir, bydd y safonwr fel arfer yn rhoi cyngor ar safon y marcio.

21 Arweiniad i'r canolfannau hynny lle nad yw'r gofynion gwaith cwrs wedi'u cwrdd

21.1 Bydd rhagor o arweiniad yn cael ei ddarparu i bennaeth y ganolfan fesul achos pan fydd athrawon neu ganolfannau unigol yn methu â chwrdd â gofynion y corff dyfarnu ynglŷn â gwaith cwrs.

21.2 Yn ôl gofynion y *Cod Ymarfer*, bydd y cyrff dyfarnu'n gweithredu fel a ganlyn os nad yw problem sylweddol wedi'i chywiro.

- darparu arweiniad pellach i'r ganolfan;
- cymeradwyo a monitro trefniadau asesu a safoni'r ganolfan;
- hysbysu'r rheolyddion;
- hysbysu cyrff dyfarnu eraill.

22 Gwaith cwrs a asesir yn allanol

22.1 Mewn rhai manylebau, asesir gwaith cwrs yn allanol. Mewn achosion o'r fath, rhaid anfon gwaith cwrs pob ymgeisydd, ynghyd â'r datganiadau dilysu, at gorff dyfarnu/arholwr i'w farcio erbyn dyddiad penodol.

22.2 Efallai na fydd gwaith cwrs a asesir yn allanol yn cael ei ddychwelyd i'r canolfannau'n awtomatig. Yn yr achosion hynny lle nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r canolfannau, bydd yn cael ei drin yn yr un ffordd â sgriptiau arholiad a bydd gofyn i'r canolfannau ofyn am waith o'r fath yn ôl y trefniadau dychwelyd sgriptiau. Am fwy o fanylion am y trefniadau dychwelyd sgriptiau, dylai canolfannau gyfeirio at lyfryn y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau.* Mae'r llyfryn hwn ar gael ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams office/postresult services/.
Ni fydd ffurflenni adborth yn cael eu hanfon gydag unrhyw waith cwrs a asesir yn allanol sy'n cael ei ddychwelyd i'r canolfannau.

23 Dychwelyd gwaith i ganolfannau

23.1 Bydd safonwyr yn dychwelyd gwaith yn syth i ganolfannau yn ôl cyfarwyddyd y cyrff dyfarnu. Ni fydd gwaith cwrs a gyflwynir yn electronig yn cael ei ddychwelyd i ganolfannau.

23.2 Mae gofyn i ganolfannau gadw gwaith cwrs ymgeiswyr wedi'i farcio dan amodau diogel, pa un ai oedd yn rhan o'r sampl safoni ai peidio tan y bydd pob posibilirwydd o gyflwyno ymholiadau am ganlyniadau wedi mynd heibio. Os yw'n broblem cadw'r gwaith, oherwydd natur y gwaith cwrs, rhaid i rhyw fath o dystiolaeth (e.e. ffotograffig, tâp sain neu dâp fideo) fod ar gael. Gofynnir i ganolfannau gadw cofnod o rifau arholiad ac enwau'r ymgeiswyr hynny y mae eu gwaith wedi'i gynnwys yn y sampl a anfonir at safonwyr neu a welir ganddynt. Gall fod angen y wybodaeth hon os bydd ymholiadau am ganlyniadau ar ddyddiad diweddarach. Yn achos gwaith cwrs sy'n cael ei storio'n electronig, dylid hefyd ystyried ei warchod rhag cael ei lygru.

23.3 Gall y cyrff dyfarnu ddefnyddio darnau o ddeunydd gwaith cwrs yn ddienw i bwrpasau hyfforddi ac i enghreifftio safonau. Cedwir yr hawl gan y cyrff dyfarnu i ddefnyddio darnau o waith a asesir gan ganolfannau yn ddienw mewn cyflwyniadau, deunydd a chynnyrch addysgol yn unol â'r ddeddf hawlfraint ac i gadw enghreifftiau o waith a asesir gan ganolfannau i bwrpasau archif, (e.e. cymedroli ac arweiniad i athrawon).

24 Trefniadau consortiwm o ganolfannau

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i ganolfannau sy'n dilyn cymwysterau Project annibynnol.

***Gall* y cymwysterau hyn fod yn berthnasol hefyd i gymwysterau Project sy'n cael eu hymgymryd fel rhan o gymhwyster Diploma. Dylai canolfannau gysylltu â'u corff dyfarnu am arweiniad pellach.**

24.1 Mewn achosion lle mae pob ymgeisydd o wahanol ganolfannau wedi'u haddysgu ac yn cael hasesu gyda'i gilydd, rhaid i'r canolfannau hysbysu'r cyrff dyfarnu o'r unedau/cydrannau asesiad mewnol perthnasol a pha ganolfannau sy'n cymryd rhan. Cyfeirir at ganolfannau sy'n dilyn trefniant o'r fath fel consortiwm.

24.2 Rhaid i'r canolfannau yn y consortiwm enwebu cydlynydd consortiwm sy'n ymgymryd â'r gwaith o gysylltu â'r cyrff dyfarnu ar ran y canolfannau i gyd.

24.3 Dylai'r cydlynwyr consortiwm lenwi'r Ffurflen *JCQ/CCA Trefniadau consortiwm canolfannau ar gyfer gwaith cwrs a asesir yn y ganolfan* i bob cyfres arholiadau a phob manyleb gydag un neu fwy o gydrannau a asesir yn fewnol sydd wedi'u dysgu ar y cyd. Mae'r ffurflen hon i'w chael ar wefan y CGC www.jcq.org.uk/. Rhaid i gydlynwyr ddychwelyd y ffurflen i'r cyrff dyfarnu perthnasol erbyn 31 Ionawr 2012 ar gyfer cyfres arholiadau Mehefin 2012. Yn achos cyfresi arholiadau eraill yn ystod y flwyddyn academaidd 2011/12, dylid ymgynghori â'r cyrff dyfarnu unigol.

24.4 Rhaid i'r canolfannau safoni'r marcio gwaith cwrs yn fewnol ar draws y consortiwm.

24.5 Bydd y corff dyfarnu'n dyrannu'r un safonwr i bob canolfan mewn consortiwm a bydd yr ymgeiswyr yn cael eu trin fel un grŵp i bwrpas safoni.

24.6 Os bydd un ganolfan mewn consortiwm yn cyflwyno ymholiad am ganlyniadau, rhaid i'r gwaith fod ar gael gan y canolfannau i gyd, gan mai'r sampl wreiddiol sy'n cael ei hadolygu.

25 Ymholiadau am Ganlyniadau

25.1 Fel rhan o wasanaethau ymholiadau am ganlyniadau cyrff dyfarnu'r CGC, gall canolfannau wneud cais am adolygiad o'r safoni ar ôl y canlyniadau (Gwasanaeth 3) er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael os yw marciau gwaith cwrs y ganolfan wedi'u derbyn heb eu newid gan gorff dyfarnu.**

25.2 Mae'r adolygiad o'r safoni:

- yn broses lle mae ail safonwr yn adolygu gwaith y safonwr cyntaf. Bydd yr ail safonwr yn gweld y marciau gwreiddiol ac unrhyw anodiadau a wnaed gan y safonwr cyntaf er mwyn cael dealltwriaeth lawn a chlir a gymhwyswyd y meini prawf asesu yn ôl y bwriad;
- yn cael ei gwblhau ar y sampl wreiddiol o waith ymgeiswyr;
- yn cynnwys adborth tebyg i'r hyn fydd yn cael ei ddarparu yn dilyn y safoni gwreiddiol. (Os bydd marciau'r ganolfan yn cael eu hadfer, efallai na fydd adborth yn cael ei ddarparu).

25.3 Ni fydd gwaith ymgeisydd unigol na gwaith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl wreiddiol yn cael ei ail-safoni (oni bai bod gwall wrth ddethol y sampl wreiddiol, e.e. heb gynnwys digon o ymgeiswyr).

25.4 Rhaid i'r gwaith cwrs a gyflwynir am adolygiad o'r safoni:

- gael ei anfon at y safonwr o fewn tri diwrnod gwaith – gallai methiant i wneud hyn olygu y bydd oedi wrth gyflwyno canlyniad yr ymholiad neu olygu bod yr ymholiad yn cael ei ddileu;
- fod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w safoni;
- fod wedi'i gadw dan amodau diogel;
- heb ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr.

25.5 Os collwyd y sampl wreiddiol o waith ymgeiswyr, gall y corff dyfarnu ofyn am sampl gyfatebol.

25.6 Ymdrinnir â **gwaith cwrs a asesir yn allanol** fel sgript arholiad i bwrpasau ymholiadau am ganlyniadau. Dylai canolfannau ofyn am adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau (Gwasanaeth 2) neu adolygiad blaenoriaethol o'r marcio ar ôl y canlyniadau (Gwasanaeth Blaenoriaethol 2) fel sy'n briodol i safon y cymhwyster.

25.7 Am ragor o wybodaeth am y drefn ymholiadau am ganlyniadau dylid cyfeirio at ddogfen y CGC *Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau.* Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams_office/postresult_services/.

26 Materion Mynediad

26.1 Wrth ddewis manylebau, mae angen i'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r sgiliau y bydd gofyn iddynt eu dangos mewn cydrannau gwaith cwrs mewn pwnc. Os ydynt yn dewis manyleb lle na fyddant yn gallu dangos cyrhaeddiad ym mhob rhan o'r asesiad, ni fyddant yn gallu ennill yr holl gredyd sydd ar gael.

26.2 Mae'n bosibl i gyrff dyfarnu gytuno ar drefniadau fel y gall ymgeiswyr â gofynion arbennig gyrchu'r asesiad(au). **Rhaid** gwneud y trefniadau hyn cyn yr arholiadau ac asesiadau. Dylai canolfannau gyfeirio at yr arweiniad a gyhoeddwyd yn nogfen y CGC *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig, 1 Medi 2011 i 31 Awst 2012.* Cyhoeddir y ddogfen hon ar wefan y CGC: http://www.jcq.org.uk/exams_office/access_arrangements

26.3 **Rhaid** i ganolfannau sicrhau, yn y gwaith cwrs hwnnw sy'n cael ei farcio gan yr athrawon, bod credyd ond yn cael ei roi am sgiliau bydd yr ymgeisydd yn eu dangos wrth weithio'n annibynnol ac nad yw trefniadau mynediad yn effeithio ar y gofynion asesu.

Datganiad Dilysu – asesiadau gwaith cwrs

Cyn cyflwyno eu gwaith cwrs i'w hathrawon pwnc/aseswyr, mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi datganiad yn cadarnhau mai ei waith ef/hi yw'r gwaith cwrs a gyflwynwyd a bod unrhyw gymorth a roddwyd a/neu ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod. **Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau eu bod yn gwneud hynny.**

Gall cyrff dyfarnu gyhoeddi ffurflenni Datganiad Dilysu i'r canolfannau, fydd yn dyblygu rhywfaint neu'r cyfan o'r geiriad isod. Neu fel arall, gall y canolfannau hynny sydd am greu eu dogfennaeth eu hunain ddefnyddio'r canlynol fel arweiniad.

Rhaid mai eich gwaith chi yn unig yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.

Os ydych yn copïo gwaith rhywun arall, yn caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu'n twyllo mewn unrhyw ddull arall, gallwch gael eich diarddel o'r pwnc dan sylw o leiaf.

Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall yr ***Wybodaeth i'r Ymgeisydd (TAG, TLM a Chymwysterau Project: Asesiadau Gwaith Cwrs)****. Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb unrhyw gymorth ac eithrio'r hyn mae fy athro/athrawes wedi egluro sy'n dderbyniol o dan y cynllun asesu.*

Enw'r ymgeisydd …….

Llofnod yr ymgeisydd……Dyddiad:…….

Datganiad gan yr athro

Cadarnhaf:

1. *bod gwaith yr ymgeisydd wedi'i gynhyrchu dan yr amodau a roddir yn y fanyleb;*
2. *fy mod wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwy'n fodlon, hyd y gwn i, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd;*

Enw'r athro…….

Llofnod yr athro……. Dyddiad:…….

©2011

Cyd-gyngor Cymwysterau

Cynhyrchwyd yr hysbysiad hwn ar ran:

AQA, CBAC, CCEA, City & Guilds, Edexcel ac OCR

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

TAG, TLM a Chymwysterau Project: Asesiadau Gwaith Cwrs

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am rai pethau y dylech, ac na ddylech, eu gwneud wrth gwblhau gwaith cwrs.

Cyn i chi gyflwyno unrhyw waith cwrs i'w farcio, gofynnir i chi lofnodi datganiad dilysu'n cadarnhau eich bod wedi darllen a dilyn y rheoliadau hyn.

Os nad ydych yn deall unrhyw beth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro neu ddarlithydd.

Mae gwaith cwrs yn rhoi cyfle i chi wneud rhywfaint o ymchwil annibynnol ar destun. Bydd yr ymchwil y byddwch yn ei wneud yn cynnwys edrych am wybodaeth mewn ffynonellau cyhoeddedig megis gwerslyfrau, gwyddoniaduron, cyfeirlyfrau, teledu, radio ac ar y rhyngrwyd.

Mae defnyddio gwybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig (gan gynnwys y rhyngrwyd) fel sail ar gyfer eich gwaith cwrs yn ffordd ddelfrydol o ddangos eich gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc, ond mae'n rhaid i chi gymryd gofal sut y byddwch yn defnyddio'r deunydd hwn – ni chewch ei gopïo a'i hawlio fel eich gwaith eich hun.

Mae'r rheoliadau'n nodi:

"eich gwaith eich hun yn unig y cewch ei gyflwyno i'w asesu",

"ni ddylech gopïo gan unrhyw un arall na chaniatáu i ymgeisydd arall gopïo gennych chi".

Os byddwch yn defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, rhaid i chi roi dyfynodau o gwmpas y darn a nodi o ble y daeth. Gelwir hyn yn "cyfeirio". Rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn rhoi cyfeiriadau manwl ar gyfer popeth yn eich gwaith nad yw yn eich geiriau eich hun. Dylai cyfeiriad ddangos enw'r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen, er enghraifft: (Morrison, 2000, tud 29.)

Yn achos deunydd sy'n dod o'r rhyngrwyd, rhaid i'ch cyfeiriad ddangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddi. Gellir copïo hyn o'r llinell cyfeiriad, er enghraifft: (http://www.bbc.co.uk/schools/16/sosteacher/history/49766.shtml), llwythwyd i lawr 12 Chwefror 2012.

Rhaid i chi hefyd gynnwys llyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith, sy'n rhestru manylion llawn y cyhoeddiadau rydych wedi'u defnyddio ar gyfer ymchwilio eich project, er enghraifft: Morrison, A (2000) "Mary, Queen of Scots", London: Weston Press.

Os byddwch yn copïo geiriau neu syniadau pobl eraill a ddim yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, caiff hyn ei ystyried yn dwyllo.

Paratoi eich gwaith cwrs – arfer da

Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro/athrawes, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro/athrawes a bydd yntau/hithau wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.

Os oeddech yn gweithio fel rhan o grŏp ar aseiniad, er enghraifft, wrth ymgymryd ag ymchwil maes, rhaid i bob un ohonoch ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych yr un peth, dylai'r disgrifiad o sut cafwyd y data hwnnw a'r casgliadau y dewch iddynt fod yn eich geiriau eich hun.

Rhaid i chi gwrdd â'r dyddiadau cau y bydd eich athro/athrawes yn eu rhoi i chi. Cofiwch - mae eich athrawon yno i'ch arwain chi. Er nad ydynt yn cael eich cynorthwyo'n uniongyrchol, gallan nhw eich helpu i ddatrys unrhyw broblemau cyn y bydd pethau'n mynd yn rhy hwyr.

Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. Peidiwch â'i adael o gwmpas lle bydd eich cyd-fyfyrwyr yn gallu dod o hyd iddo. Rhaid i chi gadw'ch gwaith cwrs yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; peidiwch â'i rannu gyda'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadur, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r argraffydd a dinistriwch y rhai nad ydych eu hangen mwyach.

Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio traethodau o gronfeydd traethawd ar-lein – twyllo yw hyn. Gall offer electronig ddarganfod y bydd y cyrff dyfarnu'n eu defnyddio ganfod y math yma o gopïo.

Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau pobl eraill a cheisio honni mai eich rhai chi ydyn nhw. **Mae hyn yn ffurf ar gamymddwyn sy'n cael ei gymryd yn ddifrifol iawn.**

Peidiwch â meddwl na fyddwch yn cael eich dal, mae llawer ffordd o ganfod llên-ladrad:

- Gall marcwyr weld newid yn yr arddull ysgrifennu a'r defnydd o iaith;
- Mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol sy'n gyfarwydd iawn â gwaith ar y testun dan sylw – gallant fod wedi darllen y ffynhonnell rydych yn ei defnyddio (neu hyd yn oed wedi marcio'r traethawd rydych wedi copïo ohono!);
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio ar y rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â'r ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau yng nghramadeg ac arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

Cosbau am dorri'r rheolau

Os cyflwynir eich gwaith ac y canfyddir eich bod wedi torri'r rheolau, byddwch yn cael eich cosbi mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- byddwch yn cael sero marciau am y darn o waith;
- byddwch yn cael eich diarddel o'r uned honno am y gyfres arholiadau honno;
- byddwch yn cael eich diarddel o'r pwnc cyfan am y gyfres arholiadau honno;
- byddwch yn cael eich diarddel o'r pynciau i gyd a'ch gwahardd rhag cofrestru eto am gyfnod o amser.

Bydd eich corff dyfarnu'n penderfynu pa gosb sy'n briodol.

COFIWCH EICH CYMHWYSTER CHI YDYW FELLY EICH GWAITH CHI DDYLAI FOD.

©2011